Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd Plismona (PALG)

Microsoft Teams

14 Rhagfyr 2022

Yn bresennol	
Tîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	
Suzi Graham (SG)	Swyddog Polisi ac Ymchwil
Lee Jones (LJ)	Prif Weithredwr
Lisa Morgan (LM)	Swyddog Polisi
Claire Perrin (CP)	Swyddog Polisi
Tamara Lafferty (TL)	Swyddog Cymorth Llywodraethu
Heddlu De Cymru	
Y Prif Arolygydd Scott Lloyd (SL)	Swyddog Arweiniol y Rhaglen Ar-lein Unigol
Megan Williams (MW)	Dadansoddydd Buddiannau Galluogrwydd Biometreg a Swyddog Cymorth Prosiect
Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol David Thorne (DT)	Pennaeth y Portffolio Troseddau Arbenigol
Aelodau Partner PALG	
Liz Baker (LB)	Barnardos
Grace Krause (GK)	Anabledd Dysgu Cymru
Helal Uddin (HU)	EYST
Judith Major (JM)	Adferiad Recovery
Dave Vice (DV)	Adferiad Recovery
Shezhad Malik (SM)	Race Equality First
Kate Jones (KJ)	Ffynnu Cymorth i Fenywod
Leila Usmani (LU)	Cynghrair Hil Cymru
Aelodau Annibynnol PALG	
Alex Drummond (AD) (CADEIRYDD)	Aelod Annibynnol
Tony Esmond (TE)	Aelod Annibynnol

	Eitem	Cynnwys
1.	**Croeso a Chyflwyniadau**	1.1 Croesawodd AD y rhai a oedd yn bresennol a nododd ymddiheuriadau.
2.	**Cofnodion y cyfarfod diwethaf**	2.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf. 2.2 Esboniodd SG, oherwydd y trosiant staff yn y tîm Craffu, y bydd y camau gweithredu ar gyfer cyfarfod mis Medi 2022 yn barod ar gyfer cyfarfod PALG ym mis Mawrth 2023. **CAM GWEITHREDU – TL i fynd ar drywydd y camau gweithredu o'r cyfarfod ym mis Medi 2022 erbyn y cyfarfod ym mis Mawrth 2023.**
3.	**Technoleg Adnabod Wynebau** – Cyflwyniad a Thrafodaeth	3.1 Cyflwynodd AD bwnc y cyflwyniad, sef Technoleg Adnabod Wynebau. Cadarnhaodd AD fod PALG wedi herio a chraffu ar y ffordd yr oedd Heddlu De Cymru yn defnyddio'r dechnoleg hon yn flaenorol.

		3.2 Dywedodd AD ei bod yn teimlo bod yr erthygl ddiweddar yn y Guardian ym mis Hydref 2022 yn ysgytwol a'i bod yn drist meddwl y gallai PALG fod wedi colli rhywbeth. Esboniodd AD fod y dyfarniadau diweddar mewn achosion llys yn y DU yn fwy cynnil na'r hyn y mae'r Guardian yn ei nodi a'i bod yn ymwneud â'r gwahaniaeth rhwng y defnydd anghyfreithlon ac anghyfreithiol o'r dechnoleg. 3.3 Cyflwynodd Prif Arolygydd SL drosolwg o ddefnydd Heddlu De Cymru o Dechnoleg Adnabod Wynebau. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys disgrifiad o'r tri amrywiad gwahanol sef Technoleg Adnabod Wynebau, y safonau cyfreithiol, dibynadwyedd technegol a rôl y Swyddog Heddlu dynol. 3.4 Esboniodd SL y gall Technoleg Adnabod Wynebau ond helpu'r heddlu i adnabod pobl anhysbys a/neu ddod o hyd i bobl y mae'r heddlu'n chwilio amdanynt. Soniodd SL fod angen cael cydbwysedd rhwng technoleg newydd a thechnoleg ddatblygol a diogelu hawliau preifatrwydd unigolyn. Mae'r cydbwysedd hwn yn hanfodol o ran sut mae asiantaethau gorfodi'r gyfraith a'r heddlu'n parhau'n gyfreithlon wrth ddefnyddio technoleg. 3.5 Rhoddodd SL drosolwg o'r tri math o Dechnoleg Adnabod Wynebau. Sef Adnabod Wynebau Byw, Adnabod Wynebau Ôl-weithredol ac Adnabod Wynebau a Gychwynnir gan Weithredwr. Esboniodd SL mai Adnabod Wynebau Byw yw'r math mwyaf dadleuol a'r un sy'n cael y rhan fwyaf o'r sylw yn adroddiad Minderoo, a hynny am ei fod yn golygu prosesu gwybodaeth ar lefel dorfol. 3.6 Esboniodd SL fod Adnabod Wynebau Ôl-weithredol wedi bod ar gael i'r holl heddluoedd ledled y DU ers 2016. Esboniodd SL fod pob heddlu'n rhannu Cronfa Ddata ei Ddalfeydd ac yn anfon ei holl ddelweddau i Gronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu. Gall pob Heddlu ddefnyddio system Adnabod Wynebau Ôl-weithredol drwy Gronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu. Yn ogystal, mae Heddlu De Cymru a Heddlu Gwent yn rhannu cronfa ddata leol. Soniodd SL ers 2017, fod Heddlu De Cymru wedi adnabod 4000 o bobl yn gadarnhaol drwy ddelweddau. Rhannodd SL fod y system Adnabod Wynebau Ôl-weithredol yn cymryd 0.02 eiliad i goladu delweddau. Soniodd SL fod hyn yn fodd i sicrhau cyfiawnder yn gyflym a diogelu pobl sy'n agored i niwed. 3.7 Rhoddodd SL drosolwg o'r ffordd y mae Adnabod Wynebau Byw yn gweithio'n ymarferol. Cadarnhaodd SL fod Adnabod Wynebau Byw wedi arwain at 75 o arestiadau ac na chafwyd yr un arestiad anghywir yn sgil defnyddio'r dechnoleg hon. 3.8 Cyflwynodd SL drosolwg o'r safonau cyfreithiol ar gyfer Technoleg Adnabod Wynebau. Nododd SL fod dau achos Llys wedi bod mewn perthynas â defnyddio'r system adnabod wynebau ond bod achosion perthnasol eraill mewn perthynas â'r defnydd ehangach ohoni. Ar hyn o bryd, nid oes deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer technoleg fiometrig ddatblygol. Soniodd SL fod y Llys yn defnyddio dull gweithredu amrywiol o ran technoleg adnabod wynebau ar hyn o bryd. Yn achos diweddar Bridges, penderfynodd y Llys fod y defnydd o dechnoleg adnabod wynebau yn anghyfreithlon am nad oedd yr heddlu wedi dweud i bob diben pwy roedd yn ei gynnwys ar y rhestr wylio a ble y gellid lleoli'r dechnoleg. Ni wnaeth y Llys nodi sut y dylid cofnodi'r wybodaeth hon. 3.9 Soniodd SL y byddai deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer technoleg fiometrig yn heriol oherwydd y dechnoleg sy'n cael ei datblygu o hyd. Dywedodd SL, yn dilyn achos Bridges, fod Heddlu De Cymru wedi cymryd camau i ymdrin â phryderon fel diwygio dogfennau polisi a gweithdrefnau gweithredu safonol.

		3.10 Esboniodd SL gywirdeb Adnabod Wynebau Byw a dulliau mesur cywirdeb. Mae Heddlu De Cymru wedi ymchwilio i Dechnoleg Adnabod Wynebau mewn partneriaeth â'r Labordy Ffisegol Cenedlaethol. Soniodd SL fod ystyriaeth gynnar o'r adroddiad wedi cadarnhau bod y system Adnabod Wynebau Byw yn gywir iawn ac nad oes tystiolaeth o duedd. 3.11 Holodd AD ynghylch cymesuredd stopio unigolion o ethnigrwydd gwahanol sy'n cael eu mesur yn y system Adnabod Wynebau Byw. Cadarnhaodd SL fod yr astudiaeth ddiweddaraf gyda'r Labordy Ffisegol Cenedlaethol yn dangos cyfradd adnabod gywir o 80%. Mae rhybuddion anwir yn digwydd mewn tua un o bob 20,000 o chwiliadau. Cadarnhaodd SL nad oes amrywiant ymhlith rhywedd, ethnigrwydd nac oedran. 3.12 Holodd DV a oedd y rhybudd anwir mewn un o bob 20,000 o rybuddion yn cynnwys Swyddogion Heddlu dynol yn dewis peidio â rhyngweithio ag unigolyn. Esboniodd SL fod achos Bridges ond yn edrych ar duedd y dechnoleg ac nid ar ragfarn ddynol. 3.13 Rhoddodd SL drosolwg o oruchwyliaeth y Dechnoleg Adnabod Wynebau ac esboniodd fod yna waith craffu a goruchwyliaeth ar lefel genedlaethol a lleol. Cyfeiriodd SL at enghreifftiau o oruchwyliaeth genedlaethol gan y Comisiynydd Biometreg a'r Comisiynydd Gwybodaeth. Cyfeiriodd SL at enghreifftiau o oruchwyliaeth leol fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a'r Prif Bwyllgor Moeseg. 3.14 Dywedodd SL fod Heddlu De Cymru yn ymgysylltu â'r cyhoedd gryn dipyn o ran cadw'n gyfreithlon a deall barn y cyhoedd ar Dechnoleg Adnabod Wynebau. Cadarnhaodd SL fod adroddiadau diweddar gan sefydliadau fel Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn dangos adborth cadarnhaol o ran barn y cyhoedd a chefnogaeth i ddefnydd yr heddlu o Dechnoleg Adnabod Wynebau. 3.15 Holodd LU a gaiff data aflwyddiannus nad yw'n cyfateb i unigolyn ar restr wylio eu dileu'n awtomatig ac a yw'r data hyn yn destun Rhyddid Gwybodaeth. Esboniodd SL fod y mater hwn wedi codi yn achos Bridges. Cadarnhaodd SL mai polisi Heddlu De Cymru yw cadw holl ddeunydd teledu cylch cyfyng am 31 diwrnod. O ran adnabod wynebau, caiff templed biometrig ei greu. Os na fydd y templed biometrig hwnnw yn arwain at gyfatebiaeth gadarnhaol, caiff ei ddileu'n awtomatig yn syth. 3.16 Holodd LU a oes cyfatebiaeth gadarnhaol, ond nad yw'r Swyddog Heddlu dynol yn ymgysylltu â'r unigolyn, beth fydd yn digwydd i'r data. Cadarnhaodd SL, os oes cyfatebiaeth gadarnhaol ond bod y Swyddog Heddlu dynol yn penderfynu peidio ag ymgysylltu â'r unigolyn, y bydd y ddelwedd yn cael ei dileu ar ôl y defnydd o'r dechnoleg. 3.17 Holodd LU a gafwyd achosion o stopio anghywir yn dilyn rhybudd gan y dechnoleg bod yna gyfatebiaeth gadarnhaol a'r ffordd y caiff y data eu cofnodi. Cadarnhaodd SL fod y data hyn yn cael eu cyhoeddi ar-lein ar wefan Heddlu De Cymru, gan gynnwys data ar nifer y rhybuddion a gofnodwyd a sawl gwaith mae swyddogion yr heddlu yn ymgysylltu. 3.18 Holodd LU sut gwnaeth adroddiad y Labordy Ffisegol Cenedlaethol brofi unrhyw duedd o ran hil, oedran a rhywedd. Esboniodd SL fod yr adroddiad yn asesu sawl ymgysylltiad anghywir a ddigwyddodd. Dywedodd SL wrth ddefnyddio'r dechnoleg ym mis Awst 2022, na chafwyd unrhyw ymgysylltu ac felly, na chanfuwyd unrhyw ymgysylltu anghywir o ganlyniad i hynny. Cyflwynodd SL drosolwg o'r ffordd y cynhaliwyd yr asesiad.

		3.19 Holodd LU sut mae Heddlu De Cymru yn rhoi gwybod i'r cyhoedd ei fod yn bwriadu defnyddio technoleg Adnabod Wynebau Byw a pham. A oes dryswch ynghylch moeseg Technoleg Adnabod Wynebau, onid yw'r defnydd yn cael ei atal dros dro nes bod yr heddlu'n sicr ei bod yn cael ei defnyddio mewn modd moesegol. Esboniodd SL broses Heddlu De Cymru o gyfiawnhau'r defnydd o Dechnoleg Adnabod Wynebau a'i ardystio. Esboniodd SL y dull mewnol o rybuddio'r cyhoedd fod y dechnoleg yn cael ei defnyddio, fel arwyddion ffisegol a defnyddio gwefan Heddlu De Cymru. Soniodd SL fod y dirwedd foesegol yn ymwneud â'r dechnoleg wedi'i datblygu'n sylweddol ond y gall bob amser fod yn well. Cyfeiriodd SL at graffu a goruchwylio'r dechnoleg. 3.20 Holodd DV am y weithdrefn ar gyfer defnyddio'r dechnoleg a'r system Adnabod Wynebau a Gychwynnir gan Weithredwr. Holodd DV sut caiff y data eu cofnodi a'u llywodraethu. Rhoddodd SL esboniad mewn perthynas â'r weithdrefn ar gyfer defnyddio'r dechnoleg a'r unigolion allweddol yn yr heddlu sy'n awdurdodi'r defnydd. Esboniodd SL, er mwyn cau'r feddalwedd, fod angen i swyddogion roi manylion am ei defnyddio a'r cyfiawnhad dros hynny. 3.21 Holodd DV a gaiff y data hyn eu gwneud yn gyhoeddus. Cadarnhaodd SL nad yw'r data'n cael eu cyhoeddi ar hyn o bryd ond bod cynllun peilot wedi'i gynnal yn flaenorol a'i fod wedi'i gyhoeddi. Mae'r wybodaeth ar gael drwy geisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Esboniodd SL fod holl ddata Technoleg Adnabod Wynebau fel asesiad o'r effaith ar ddiogelu data, asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael eu cofnodi mewn cyfres o ddogfennau. Mae hon ar gael ar wefan Heddlu De Cymru. 3.22 Rhoddodd AD wybod i'r grŵp, er mwyn osgoi tarfu ar lif y sgwrs, na fyddai unrhyw ystafelloedd ymneilltuo i drafod y mater hwn mewn grwpiau llai o faint. 3.23 Gofynnodd KJ am eglurhad am y defnydd o'r dechnoleg i adnabod rhywun sy'n methu adnabod ei hun a mater cydsynio. Rhoddodd SL enghreifftiau o ddefnyddio delweddau heb gael caniatâd a'r fframwaith cyfreithiol ynglŷn â hyn. 3.24 Holodd AD sut roedd Technoleg Adnabod Wynebau yn cael ei defnyddio o dan amgylchiadau lle bu cyfatebiaeth gadarnhaol mewn perthynas ag unigolyn sydd wedi mynd drwy drawsnewid ac sydd wedi cael Tystysgrif Cydnabod Rhywedd. Holodd AD sut y caiff hunaniaeth hanesyddol yr unigolyn ei diogelu ac a oes cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Cydnabod Rhywedd. Esboniodd SL fod prosesau eraill ar gyfer adnabod rhywun yn y lle cyntaf, megis ymgysylltu â'r unigolyn. Rhannodd SL fod rhaid i Swyddogion yr Heddlu gwblhau asesiad risg os na fydd yr unigolyn am gael ei adnabod. 3.25 Gwnaeth AD atgoffa'r grŵp os bydd gan unrhyw un unrhyw gwestiynau ar ôl y cyfarfod, y dylent anfon e-bost at TL neu SG a all ofyn am ragor o wybodaeth gan SL.
4.	Archwiliad Dwfn o Graffu ac Atebolrwydd – Camfanteisio ar Blant a Bod yn Agored i Niwed Trafodaeth grŵp ac adborth ar y pwnc nesaf.	4.1 Esboniodd LJ y caiff yr adborth o gyfarfodydd PALG ei drosglwyddo i Fwrdd Craffu Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. 4.2 Rhoddodd LJ esboniad o'r rhaglen Archwilio Dwfn sy'n gweithredu fel trefniant craffu ffurfiol yr heddlu. Esboniodd LJ fod y tîm craffu yn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn llunio dogfen gwmpasu ar bwnc penodol a gofynnir i Heddlu De Cymru ateb amryw gwestiynau ar y pwnc hwnnw. Cyfeiriodd LJ at Stopio a Chwilio fel pwnc blaenorol ar gyfer Archwiliad Dwfn.

		4.2 Esboniodd LJ fod llawer o graffu ar yr heddlu. Soniodd LJ nad yw'r cyhoedd yn ymwybodol o hyn o bosibl. Cadarnhaodd LJ fod dyletswydd etholiadol a moesol ar Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i ddarparu hyn. 4.3 Esboniodd LJ fod yr heddlu yn mynd trwy raglen arolygu gydag Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (yr Arolygiaeth). Esboniodd LJ fod arolygiad PEEL wedi'i gynnal yn ddiweddar a bod Heddlu De Cymru wedi cael adborth cymharol gadarnhaol. 4.4 Cadarnhaodd LJ fod SG wedi anfon adroddiad Effeithiolrwydd Effeithlonrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu (PEEL) at aelodau PALG yn ddiweddar ac wedi tynnu sylw'r grŵp at dudalen 21. Esboniodd LJ fod yr Arolygiaeth wedi gofyn i Heddlu De Cymru wella mewn dau faes. Rhannodd LJ fod un ohonynt mewn perthynas â safonau cenedlaethol mewn perthynas â'r Cynllun Datgelu Trais Domestig. Cyfeiriodd LJ at hyn fel 'Cyfraith Claire' a diffiniodd hyn fel cynllun sy'n caniatáu i unigolion ofyn i'r heddlu gadarnhau a oes gan bartner newydd neu bresennol hanes o drais. Esboniodd LJ mai'r prif fater a nodwyd gan ACEF yw effeithiolrwydd ymateb yr heddlu. 4.5 Gofynnodd LJ am sylwadau gan y grŵp mewn perthynas â'u meddyliau a'u harbenigedd yn y maes hwn er mwyn iddynt allu eu hargymell i Heddlu De Cymru. Rhannodd LJ y gofynnwyd i Heddlu De Cymru sicrhau bod gan yr heddlu digon o adnoddau a galluogrwydd i ymchwilio i gamfanteisio'n droseddol ar blant a diogelu dioddefwyr, a hynny o fewn 6 mis. 4.6 Dywedodd LJ fod tîm tarfu wedi'i sefydlu ers arolygiad PEEL, sy'n cynnwys Ditectif Arolygydd ac 17 Ditectif Gwnstabl at ddibenion ymchwilio i gamfanteisio amlwg. Rhoddodd LJ wybod i'r grŵp y bydd yr Arolygiaeth yn cynnal arolygiad pellach ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant mewn grŵp. Yn ogystal, mae contract newydd wedi'i gadarnhau gyda'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol, sy'n darparu gwasanaethau eiriolaeth plant i Heddlu De Cymru. 4.7 Gwnaeth LJ ofyn am sylwadau o safbwynt personol neu sefydliadol y grŵp ar y meysydd hyn. Nododd LJ y byddai mewnbwn y grŵp yn cael ei gyfleu i'r Heddlu o ran ymateb yr Heddlu i'r maes hwn ac unrhyw welliannau a argymhellir. Cadarnhaodd LJ y gall y grŵp fyfyrio ar hyn a chysylltu ag LJ, TL ac SG yn y dyfodol. 4.8 Esboniodd LB fod ei sefydliad, Barnardos, ynghlwm wrth y maes gwaith hwn. Nododd LB iddi gael y papurau ar gyfer cyfarfod PALG bum diwrnod cyn y cyfarfod ac y byddai'n ddiolchgar pe bai'n cael y papurau'n gynt er mwyn gallu cysylltu â'r cydweithwyr sy'n arbenigo yn y maes hwn. Rhannodd LB fod hyn yn gofyn am ymateb amlasiantaethol. Soniodd LB ei bod yn gadarnhaol bod y maes hwn yn cael ei archwilio ymhellach. Cytunodd LJ â sylwadau LB, gan esbonio bod angen partneriaeth i dorri'r cylch. Esboniodd LJ ei bod yn bwysig creu cysylltiadau ag asiantaethau eraill. 4.9 Holodd AD ynghylch pryd yr hoffai'r grŵp gael y papurau cyn y cyfarfod. 4.10 Nododd LB ei bod yn arferol eu cael yr wythnos flaenorol ar gyfer cyfarfodydd eraill. 4.11 Gofynnodd AD fod y papurau'n cael eu hanfon wythnos i ddeg diwrnod cyn y cyfarfod. Cam Gweithredu: TL i anfon papurau PALG 10/7 diwrnod cyn y cyfarfod.

		4.12 Rhoddodd KJ wybod i'r grŵp fod llawer o sefydliadau eisoes yn gwneud cryn dipyn o waith yn y meysydd hyn. Dywedodd KJ fod Pathways yn canolbwyntio ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant ledled Cymru ac y gall elwa ar fod yn rhan o'r sgwrs hon. Dywedodd KJ y byddai aelodau Cymorth i Ferched yn rhoi cyfraniad sylweddol. Cadarnhaodd KJ ei bod yn fodlon bod yn ddolen gyswllt ar gyfer hynny. 4.13 Holodd KJ a fyddai'r gwaith hwn yn ymwneud â llinellau cyffuriau. 4.14 Esboniodd LJ ei fod yn rhagweld y bydd gwaith yn ymwneud â llinellau cyffuriau. Bydd LJ yn derbyn cynnig KJ o ran grwpiau cwmpasu ymlaen llaw. Cadarnhaodd LJ y bydd camfanteisio'n rhywiol ar blant yn cael ei drafod yn y cyfarfod archwilio dwfn nesaf ac y bydd Cyfraith Claire yn cael ei thrafod mewn cyfarfod yn y dyfodol. 4.15 Soniodd KJ fod angen ffocws penodol ar bobl ifanc sydd bron yn oedolion. 4.15 Dywedodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol DT y bydd llinellau cyffuriau yn sicr yn cael eu hadolygu oherwydd bod ffocws y timau camfanteisio'n symud o edrych ar gamfanteisio ar blant yn unig i gamfanteisio troseddol. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio plant i ddosbarthu cyffuriau. **Cam Gweithredu: SG i gysylltu ag LB a KJ y tu allan i'r cyfarfod i drefnu grŵp ffocws.**
5.	5. Diweddariadau gan Bartneriaid a Materion i'w Codi	5.1 Ni dderbyniwyd unrhyw ddiweddariadau gan bartneriaid. 5.2 Cadarnhaodd AD fod camau gweithredu o fis Medi 2022 wedi'u colli ac y byddant yn cael eu trafod yn y cyfarfod ym mis Mawrth 2022. 5.3 Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau agenda i'r dyfodol.
6.	Unrhyw Fater Arall • Ymweliad Arfaethedig â'r Ddalfa • Cymeradwyo Cylch Gorchwyl • Ffurflen Gydsynio GDPR • Dyddiadau Panel Craffu PALG/Grŵp Cynghori Annibynnol ar gamerâu fideo a wisgir ar y corff	6.1 Soniodd SG am gynnig i gynnal ymweliad ar y cyd â'r ddalfa rhwng aelodau PALG, a Grŵp Cynghori Annibynnol yr heddlu. Gofynnodd SG i aelodau'r grŵp gysylltu â hi os oes ganddynt ddiddordeb mewn bod yn rhan o'r ymweliad. **Cam Gweithredu – aelodau i gysylltu ag SG os oes ganddynt ddiddordeb mewn bod yn rhan o'r Ymweliad ar y Cyd â'r Ddalfa.** 6.2 Soniodd SG am ymholiad a thrafodaeth yn y gorffennol ynglŷn â'r opsiwn o gyfethol aelodau ar gyfer pynciau penodol. Cadarnhaodd SG iddi drafod ag AD y dylid gohirio'r drafodaeth honno hyd nes bod arweinydd strategol newydd wedi dechrau yn ei swydd. Dywedodd SG y byddai'n ddelfrydol gohirio cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl tan y dyddiad hwnnw er mwyn gallu diweddaru'r wefan. Gofynnodd SG y dylai unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r Cylch Gorchwyl gael eu codi yn y cyfarfod neu ar ôl hynny. 6.3 Gofynnodd SG i bobl sydd heb ddychwelyd ffurflenni GDPR eto i wneud hynny cyn gynted â phosibl.

		Cam Gweithredu – SG i gysylltu ag aelodau ar wahân. 6.4 Esboniodd SG fod dyddiadau ar ddod ar gyfer y flwyddyn nesaf i aelodau annibynnol PALG sy'n aelodau o'r Panel Fideo Craffu ar Gamerâu Fideo a Wisgir ar y Corff. Esboniodd SG fod Cylch Gorchwyl PALG yn nodi bod angen i bedwar aelod o leiaf fod yn bresennol ar hyd y flwyddyn. Rhannodd SG fod yna wyth cyfarfod panel y flwyddyn ac mae'n cynnig bod yr wyth ar agor er mwyn i aelodau allu dewis y cyfarfod y maent yn ei fynychu. Dywedodd SG y gallai hyn fod yn fwy hyblyg i'r aelodau. **Cam Gweithredu – mae'r aelodau'n cael terfyn amser o 24 awr i fynegi unrhyw bryderon mewn perthynas â'r Cylch Gorchwyl. Os na chaiff unrhyw bryderon eu codi, tybir bod pawb yn cytuno.** 6.5 Diolchodd AD i aelodau'r grŵp am fod yn bresennol a daeth â'r cyfarfod i ben.

Tabl Camau Gweithredu

Cam Gweithredu	Perchennog
TL i fynd ar drywydd y camau gweithredu o'r cyfarfod ym mis Medi 2022 erbyn y cyfarfod ym mis Mawrth 2023.	TL
TL i anfon papurau PALG 10/7 diwrnod cyn y cyfarfod.	TL
SG i gysylltu ag LB a KJ y tu allan i'r cyfarfod i drefnu grŵp ffocws.	SG
Aelodau i gysylltu ag SG os oes ganddynt ddiddordeb mewn bod yn rhan o Ymweliad ar y cyd â'r Ddalfa.	Aelodau
SG i gysylltu ag aelodau ar wahân.	SG
Caiff aelodau 24 awr i fynegi unrhyw bryderon mewn perthynas â'r Cylch Gorchwyl. Os na chaiff unrhyw bryderon eu codi, tybir bod pawb yn cytuno.	Aelodau